OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 976

# Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000

**Casglu Dirwyon**

**5.**—(1) Pan orfodir dirwy gan lys ynadon ar feistr, perchennog neu siartrwr, neu ar aelod o griw cwch pysgota a gollfernir gan y llys o dramgwydd perthnasol neu dramgwydd o dan erthygl 10 o'r Gorchymyn hwn, caiff y llys –

(a) rhoi gwarant atafaelu yn erbyn y cwch a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r tramgwydd a'i offer a'i haldiad ac unrhyw eiddo sydd gan y person a gollfarnwyd er mwyn casglu swm y ddirwy; a

(b) gwneud gorchymyn i gadw y cwch a'i offer a'i haldiad am gyfnod o ddim mwy na thri mis o ddyddiad y gollfarn neu hyd nes y telir y ddirwy neu y cesglir swm y ddirwy yn unol ag unrhyw warant o'r fath, p'un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

(2) Bydd adrannau 77(1) a 78 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**1**) (gohirio rhoi gwarantau atafaelu, a diffygion ynddynt) yn gymwys i warant atafaelu a roddir o dan yr erthygl hon fel y maent yn gymwys i warant atafaelu a roddir o dan Ran III o'r Ddeddf honno.

(3) Pan fydd gorchymyn trosglwyddo dirwy mewn perthynas â dirwy ynglyn â thramgwydd perthnasol yn cael ei wneud o dan adran 90 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980, erthygl 95 o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981 (**2**) neu adran 222 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (**3**) ac yn pennu rhanbarth llys ynadon yng Nghymru, bydd yr erthygl hon yn gymwys fel petai'r ddirwy wedi ei gorfodi gan lys o fewn y rhanbarth llys ynadon hwnnw.

(**1**) 1980, p43. Troswyd yr uchafsymiau dirwyon yn adran 78 yn lefelau ar y raddfa safonol gan adrannau 37 a 46 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48).
(**2**) O.S. 1981/1675 (G.I. 26)
(**3**) 1995, c. 46